

# Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyrol 1 Rhif 12

Yn rhad ac am ddim

Mawrth 2021

## Dysgwch wrth Wrando

gan Rob Evans



Ces i fy ngeni yn Sir Fôn yn y cyfnod dedwydd yna pan oedd ein byd yn hollol Gymraeg, Doedd dim bygythiad

i'r iaith Cymraeg, wel doedd o ddim yn amlwg ar y pryd beth bynnag. Roedd fy nhad yn rheithor ym mhlwyf Llanallgo, ger Moelfre ond daeth tro ar ein byd pan gafodd o ei benodi i fod yn

ficer yn Saundersfoot, de Sir Benfro. Dw i'n cofio fy niwrnod cyntaf yn ysgol gynradd y pentre' a'r plant eraill yn dweud wrtha i fod gen i acen ryfedd! Acen ryfedd! Brensiach na, doedd gen i ddim acen o gwbl ond mi oedden nhw'n swnio'n od iawn. Doedd fy mrawd ifengaf ddim yn siarad Saesneg o gwbl felly roedd rhaid i ni, fel teulu, newid ein hiaith i'r Saesneg. Heblaw am siarad efo perthnasau pob hyn a hyn doedd dim llawer o gyfle i sgwrsio yn Gymraeg ond mi es i i'r dosbarth 'Welsh as a Foreign Language' yn fy mlwyddyn olaf yn yr ysgol ramadeg. Gwnaeth hynny sicrhau i mi gael 5 lefel O a swydd yn y banc. Dyna oedd dechrau fy ngyrfa amrywiol dros ben ag aeth â fi i ganolbarth Lloegr am bron 40 mlynedd. Pan o'n i tua 35 mi nes i ddechrau poeni mod i bron wedi colli rhywbeth gwerthfawr iawn. Yn naturiol doedd fy Nghymraeg ddim wedi datblygu o gwbl ers i mi fod yn 10 mlwydd oed ac roedd rhan fwyaf o hynny wedi ei hen anghofio. Ces i fy achub gan lyfrau a Radio Cymru. Mi wna

i drafod llyfrau mis nesaf ond dyma sut wnaeth Radio Cymru ddod â fi'n ôl i'r byd Cymraeg.

Ar ôl cyfnod yn gweithio yn Drysorlys Dinas Birmingham ac wedyn Austin Morris yn Longbridge nes i ffeindio fy hun yn byw yn Kidderminster.

Mae'r dref yn ddigon agos at y ffin i mi gael Radio Cymru yn glir. Roedd Cymraeg ar gael! Er, doeddwn i ddim yn gallu deall llawer, bron dim ar y dechrau ond doedd dim

ffordd arall o glywed yr iaith. Maddewch i mi rŵan am sôn am bethau diarth i chi ond gofynnwch i'ch Nain neu Daid am esboniad. Roedd gen i ganolfan cerdd felly roeddwn i'n gallu recordio rhaglenni ar dâp gasét a chwarae Radio Cymru trwy radio'r car ar bob cyfle. Doeddwn i ddim yn disgwyl deall llawer ond yn raddol roeddwn i'n dod ar draws gair penodol, un o'n i wedi clywed llawer gwaith. Y noson honno byddaf yn holi'r geiriadur a dyna air newydd roeddwn i wedi dysgu. Mewn tipyn roeddwn i'n dechrau deall beth oedden nhw'n dweud. Petaswn i wedi bod yn mynd i ddosbarth nos ar yr un pryd wedyn mi fydda i wedi dysgu'n llawer cyflymach, ond doedd ddim ar gael.

Erbyn hyn mae pethau yn llawer gwell, am un peth allech chi glywed Radio Cymru unrhyw le yn y byd. Mae hynny'n beth mawr dydi, allech chi allfudo i Awstralia a chadw mewn cysylltiad â'r iaith. Hefyd mae Radio Cymru'n cynhyrchu



podlediadau yn arbennig i ddysgwyr, darnau bach o gynnwys darllediadau'r wythnos sydd yn haws i ddysgwyr deall. Allech chi gael y rhain ar eich ffôn neu'ch tabled a gwrando arnyn nhw bryd bynnag a faint bynnag dach chi angen.

Mae'n werth hefyd gwrando ar y rhaglenni, maen nhw bron i gyd yn gymysgedd o siarad a cherddoriaeth. Mae cerddoriaeth Cymraeg yn fyd newydd i chi hefyd, efallai byddech chi'n clywed llais dach chi'n mwynhau ac eisiau prynu'r cryno ddisg (os dyna sut dach chi'n cael eich cerddoriaeth y dyddiau yma).

Bydd Radio Cymru'n rhoi llawer o fwynhad i chi ac ar yr un pryd byddech chi nid ddim ond yn mwynhau ond yn dysgu hefyd.

Ewch i:

<https://www.bbc.co.uk/podcasts/radiocymru> er mwyn cael gweld yr holl bodlediadau ac i <https://www.bbc.co.uk/programmes/po2nrvyj/episodes/downloads> er mwyn cael y pigion i ddysgwyr.

Mae cymaint o adnoddau ar gael i'ch arwain ar eich siwrne trwy'r iaith, peidiwch â gwastraffu'r cyfle gwerthfawr yma i'ch symud ymlaen yn gyflym!

Pob lwc!

## Rhaglenni Dydd Llun – i Ddydd Gwener

5.30 – John Hardy – *ysgafn*

7.00 – Dros Frecwast – *newyddion*

9.00 – Aled Hughes – *ysgafn*

11.00 – Bore Cothi – *ysgafn*

12.30 – Dros Ginio – *newyddion*

2.00 – Ifan Evans – *ysgafn*

5.00 – Post Prynhawn – *newyddion*

6.00 – 12.00 *Amrywiol*

## I Ddysgwyr y Flwyddyn Gyntaf

*You will notice that some of the words here are different to what you have learnt because I'm from north Wales but don't worry, it isn't that different when you get used to it. This is just a framework, just read it as you have learnt it – it will be worth it because it increases your vocabulary and gets you used to the patterns in sentences.*

### Siopa

*I had this urge to have something different for dinner tonight and I decided to do Cullen Skink. This is a Scottish recipe using smoked haddock and potatoes and is very tasty. There is a very good fishmonger in Oystermouth so I decided go there rather than use a supermarket. It was a very cold day!*

Dw i eisiau coginio Cullen Skink heno. Dw i eisiau prynu ffinihadan Mae hi'n ddiwrnod oer iawn. Mi wnes i barcio'r car yn West Cross. Mae'r siop yn filltir i ffwrdd. Dw i'n cerdded, dw i'n hoffi cerdded. Mae'r gwynt yn gryf ond dw i'n gwisgo dillad cynnes. Dw i'n gwisgo menig ond mae fy wyneb yn oer iawn. Mae fy nhalcen yn rhewi ac yn brifo. Mae gen i gur yn fy mhen. Dw i'n gweld pobl yn cerdded, maen nhw'n edrych yn oer. "Diwrnod braf!" medda fi. Maen nhw'n chwerthin. Dw i'n hoffi gweld pobl yn chwerthin. Mae'r gwynt yma yn ofnadwy. Dw i'n teimlo'n oer!

Dw i ddim yn gweld pobl yn seiclo, maen nhw'n aros gartref, yn y gwres! Dw i eisiau bod adref yn y gwres, ond dw i'n edrych ymlaen at gael Cullen Skink heno.

Dyma'r siop, o'r diwedd. "Gaf i 250gm o ffinihadan os gwelwch yn dda?" medda fi.

"Wrth gwrs" medda'r dyn.

Mae o'n pwyso'r darn o bysgodyn ac yn lapio mewn papur a rhoi popeth mewn bag plastig.



Dw i'n tapio fy ngharden ac yn dechrau ar y daith yn ôl at y car.

Mae'r gwynt tu ôl i mi rwan a dw i'n fwy cynnes.

Dw i'n cyrraedd y car. Dw i ar y ffordd adref. Dw i yn y tŷ ac mae'r tân ymlaen. Dw i'n gynnes.

Roedd y Cullen Skink yn flasus dros ben!

*If you would like to try your hand at writing something I would be very pleased to accept your contribution. I wouldn't expect anything beyond what you have learned so far. By using what Welsh you have you will build up confidence and the more confident you feel then the happier you will be with your progress. Your contribution will help others like you – the more there is to read, the more people will learn.*

## Geirfa

- Ffinihadan – smoked haddock
- Menig – gloves
- Talcen – forehead
- Rhewi – frozen
- Brifo – to hurt
- Cur yn fy mhen – a headache
- Chwerthin – to laugh
- Aros gartref – to stay home
- Yn y gwres – in the warm
- Edrych ymlaen – to look forward to
- O'r diwedd – at last
- Wrth gwrs – of course
- Pwyso – to weigh
- Lapio – to wrap
- Tapio fy ngharden – to tap my card
- Tu ôl i mi - behind me
- Blasus dros ben – very, very tasty

## I ddysgwyr yr ail flwyddyn

### Dewch am Dro

### O Abereiddi i Borthgain



Dewch am dro efo fi yng ngogledd Sir Benfro. Parciwch y car yn Abereiddi a gwisgwch eich esgidiau cryf. Oes

gennych chi ffon? Mae'r llwybr yn serth i ddechrau. Ydych chi'n barod? Ymlaen â ni.

Cyn i ni ddechrau dringo mae hen adfeilion i'w gweld. Blynnyddoedd yn ôl roedd chwarel mawr yma a dyma ble oedd y gweithwyr yn aros. Bydden ni'n gweld y chwarel ar ôl cerdded i fyny'r bryn yma.

Dan ni wedi cyrraedd hanner ffordd erbyn hyn a dw i'n gweld bod rhai ohonoch chi wedi blino. Arhoswch am funud a throwch i edrych yn ôl at Abereiddi. Dw i'n meddwl bod y môr yn wyllt pan mae'n stormus. Mae'r maes parcio yn mynd yn llai pob blwyddyn. Wedi cael digon rwan? Ymlaen â ni eto.

Nid yw'r gwynt yn chwythu heddiw felly dowch yn agos at y dibyn yma, ond nid yn rhy agos cofiwch. Dach chi'n edrych i lawr ar y Lagw'n Glas, roedd hen chwarel yma a phan wnaeth hi gau wnaeth dynion Abereiddi torri trwodd i'r môr er mwyn cadw eu cychod pysgota yn ddiogel. Mae cwmni yn dod â phobl ifanc yma iddyn nhw neidio o'r creigiau i'r dŵr. Byddech chi'n hoffi gwneud hynny?

Troi ein cefnau rwan ac ymlaen at Borthgain, does dim dringo tan i ni fod uwchben y pentref a dringo i lawr bydd hynny. Ond mae llawer o bethau i'w gweld cyn hynny. O'n blaen dyn ni'n gweld creigiau a chlogwynau arfordir sir Benfro ac mae awel ysgafn i'n cadw ni rhag mynd yn rhy boeth. Mae'r llanw allan a thraethau tawel i'w gweld. Tybed pam maen nhw'n dawel? Mae'r ateb yn syml - does dim llwybr! Ond bydd cyfle nes ymlaen.

A dyma di, mae stepiau metel i fynd i lawr i'r traeth yma, ond cofiwch bydd rhaid i ni ddringo nôl wedyn! Cymerwch eich amser, does dim brys. Dyma ni i lawr ar y traeth, beth am gael hanner awr i fwynhau crwydro, iawn? Mae mor dawel efo dim ond sŵn y môr yn torri'n ysgafn ar y traeth a'r gwylanod yn crio uwch ein pennau. Mae'n braf yma dydy?

Mae'n rhaid dringo i fyny at y llwybr unwaith eto a mynd ymlaen i'r peth nesaf i'w weld. A dyma ni mae hen adfeilion yma wedi eu hadeiladu efo'r brics roedden nhw'n cynhyrchu yma. Islaw mae chwarel fawr ac mae'n agos iawn at lefel y dŵr. Yn yr ardal o'n cwmpas roedden nhw'n cynhyrchu brics, llechi a cherrig a'r cwbl lot yn cael ei lwytho ar longau a'u cludo i bob rhan o'r wlad. Mae'r lle yn dawel erbyn hyn ond blynyddoedd yn ôl roedd y lle yn brysur dros ben!

Dach chi eisiau bwyd rŵan? Dewch efo fi, mae tafarn ardderchog yn y pentref - dyma le dyn ni'n mynd i gael cinio! A gan fod chi wedi bod yn gwmni mor dda - fi sy'n prynu.

Mwynhewch!

*If you would like to try your hand at writing something I would be very pleased to accept your contribution. I wouldn't expect anything beyond what you have learned so far. By using what Welsh you have you will build up confidence and the more confident you feel then the happier you will be with your progress. Your contribution will help others like you – the more there is to read, the more people will learn.*

## Geirfa

Dewch am dro – come for a walk  
 Esgidiau cryf – strong boots  
 Ffon – (walking) stick  
 Serth – steep  
 Ymlaen â ni – on we go  
 Dringo – to climb  
 Adfeilion – ruins  
 Chwarel – quarry  
 Bryn – hill  
 Cyrraedd – to reach  
 Erbyn hyn – by now  
 Trowch – turn (command)  
 Gwyllt – wild  
 Mynd yn llai – getting smaller  
 Dibyn – precipice  
 Rhy agos – too close  
 Lagŵn glas  
 Torri trwodd – to break through

Diogel – safe  
 Neidio – to jump  
 Craig – rock  
 Uwchben – above  
 Clogwyn – cliff  
 Arfordir – coast  
 Awel ysgafn – light Breeze  
 Llwybr – path  
 Dim brys – no rush  
 Crwydro – to wander  
 Adeiladau – bulidings  
 Cynhyrchu – to produce  
 Llechi – slates  
 Cerrig – stone  
 Llwytho – to load  
 Cludo – to carry, convey

## Cynffonnau Wŷn Bach

gan Rob Evans



Roeddwn i'n sylu ar yr ardd gefn ar ddiwrnod gwlyb ac anghynnes a fy meddwl yn crwydro'n ôl i'r gwanwyn a'r haf diwethaf. Roedd fy nghoed afalau ifanc wedi rhoi sioe fawr efo'u blodau tra bod y llwyni gwsberis swil yn cadw eu blodau o'r golwg. Mae'r gaeaf wedi bod yn hir ac mae'n hen bryd i'r gwanwyn gyrraedd! Ond wrth godi fy llygaid welais i'r cynffonnau wŷn bach yn hongian yn dawel ar goeden tu ôl i'r ffens gefn. Blodau'r gollen yw'r rhain ac os ydyn nhw'n llwyddo i beillio bydd cnau ar gael i'r wiwer yn yr hydref. Ond does dim pryfed o gwmpas adeg yma o'r flwyddyn felly pa obaith sydd i'r wiwer dywedwch. Mae natur wedi meddwl am bopeth ac nad yw'r cynffonnau wŷn bach yn dibynnu ar bryfed, mae'r gwynt yn effeithiol iawn i drosglwyddo'r pail i lwyni eraill o gwmpas. A dyna le oeddech chi'n meddwl mai unig bwrpas y gwynt yn y gaeaf yw troi eich ymbarél tu chwith allan neu i chwythu eich het i ffwrdd!

Peth cymhleth iawn yw natur!



Ond pam, meddech chi, bod cynffonnau ŵyn bach i'w gweld am bron hanner y flwyddyn? Does bosib bod hi'n cymryd gymaint ag hynny o amser i beillio! Yr ateb yw nid dim ond y gollen sydd yn defnyddio cynffonnau ŵyn bach i beillio.

Dyma'r amserlen:

Y gollen – yn peillio rhwng mis Ionawr a mis Mawrth.

Y wernen – rhwng mis Chwefror a mis Mawrth

Y fedwen arian – rhwng mis Mawrth a mis Mai

Y dderwen – rhwng mis Ebrill a mis Mai

Yr helygen wen – rhwng mis Ebrill a mis Mai

Felly mae blwyddyn byd natur wedi dechrau'n barod. Erbyn i chi ddarllen yr erthygl yma mi fydd blodau'r gwanwyn wedi hen ddechrau i'n tywys ni ymlaen at y tywydd gwell ac mi fydd gwaith i'w wneud yn yr ardd. Dw i ddim yn gwybod amdanoch chi ond mae gen i hadau ffa i osod o dan y coed afalau. Dw i'n gwybod bod hynny'n swinio'n wirion, pwy sy'n tyfu ffa o dan goed afalau? Wel roedd gen i lwyni lafant o dan yn nhw'r llynedd er mwyn cael y gwenyn ond roeddwn i'n teimlo bod nhw'n tynnu gormod o faeth allan o'r pridd. Roedden nhw'n tyfu'n rhy dda mewn gwirionedd! Roeddwn i eisiau cael rhywbeth fydd yn rhoi daioni i'r pridd yn hytrach na rywbeth fydd yn ei dynnu allan. A dyna'n union beth mae ffa yn gwneud, ia maen nhw'n tynnu maeth allan o'r pridd ond maen nhw'n rhoi nitrogen yn ôl. Dw i'n siŵr y bydda i'n cael cnwd o ffa, efallai dim gymaint â byddaf wrth blannu nhw mewn lle mwy agored ond dw i eisiau gweld os bydd gwahaniaeth i'r coed afalau.

Cawn ni weld ond, yn ôl at y gwanwyn. Beth am gymryd sylw at y gwahanol blanhigion sydd yn gwthio trwy'r pridd a'r coed sydd yn blodeuo yn y tymor bendigedig yma a sut mae mathau gwahanol o bryfed yn digwydd ymddangos ar yr un pryd. Mae byd natur yn rhyfeddol dros ben, mae pwrpas i bob peth a phob peth yn dibynnu ar

rywbeth arall ym myd natur. Mae'n llawer mwy cymhleth na'r jig-so, 1,000 darn, sydd wedi eich poeni chi ers y Nadolig!

## Pigiad

gan Rob Evans



Yn ystod mis Ionawr mi wnaeth y syniad taro fi bod y gair 'pigiad' yn llawer gwell na'r gair Saesneg 'jab'. Mae 'jab' yn awgrymu gweithred sydyn a diofal tra bod 'pigiad' yn awgrymu rhywbeth mwy gofalus a thyner. Dydi o ddim yn help bod 'Jab' yn odli efo 'stab'.

Chi'n gweld roeddwn i wedi cael y llythyr i ddweud mod i'n mynd i gael y pigiad yn ystod yr wythnosau canlynol ac i ddisgwyl y llythyr a fydd yn cadarnhau'r apwyntiad.

Roedd fy meddwl i'n mynd yn ôl i fy nyddiau ysgol a'r diwrnod pan oedd y nyrs yn galw i roi injecshyn i ni. Dyna beth oedd o yn y dyddiau hynny, roedden ni'n cael injecshyn achos roedd hyn yn llawer cyn i rywun benderfynu bydd y gair 'pigiad' yn llawer gwell. Doedd dim sensitifrwydd am y peth, roedd holl blant y dosbarth yn sefyll mewn rhes ac yn gweld pob plentyn o'u blaenau yn gwingo mewn poen. Os oeddech chi ar ddiwedd y rhes roeddech chi wedi codi ofn yn ofnadwy erbyn eich tro chi.

Chi bobl ifanc! Does gennych chi ddim syniad o faint oedden ni'n gorfod dioddef!

Mae pethau'n llawer gwell erbyn hyn wrth gwrs ac roeddwn i'n edrych ymlaen at gael y peth drosodd. Am chwech o'r gloch ar ddiwrnod olaf mis Ionawr roeddwn i'n eistedd yn yr adeilad yma oedd wedi cael ei addasu ar gyfer marathonau o bigiadau. Chwarae teg i'r Gwasanaeth Iechyd roedd y ffordd o weithio yn reit slic. Roedden ni i gyd yn eistedd ar gadeiriau ar ddwy ochr yr ystafell hirsgwar a fi oedd y

cyntaf yn y rhes. Dyma'r nyrs yn dod ataf fi efo'i throli, tynnu clipfwrdd allan ac yn cadarnhau fy enw a chyfeiriad ac ati ac wedyn yn gofyn cwestiynau am fy nghyflwr iechyd. Dw i'n falch o ddweud fy mod i wedi ymateb pob un yn gywir ac fel gwobr am hynny ces i'r pigiad. Wedyn mi nes i siomi fy hun, ia, mi nes i grio! Ond roeddwn i'n teimlo'n llawer gwell ar ôl i'r nyrs roi cwtsh i mi!

Hen dric dw i'n gwybod, ond mae'n gweithio pob tro!

## Caethwasiaeth a Chymru

gan Martin Jones



Pan rydyn ni'n meddwl am ran Prydain yn y gaethfasnach, rydyn ni'n tueddu i feddwl am borthladdoedd mawr yn Lloegr fel Lerpwl a Bryste. Ac roedd tynnu lawr cerflun Edward Colston ym Mryste yn un o'r delweddu mwyaf cofiadwy 2020. Ond beth am ran Cymru yn y fasnach erchyll hon? Ar y naill law nad oedd gaethlongau yn hwylio o borthladdoedd Cymru, ond ar y llaw arall gwnaeth llawer o unigolion yng Nghymru elw o gaethwasiaeth. Yn eu plith, mae rhai enwau enwog.

Dynion fel Sir Henry Morgan o Lanrhyddni. Preifatîr yn wreiddiol, yn ddiweddarach daeth Sir Henry yn berchen ar ystadau siwgr a gafodd eu gweithio gan gaethweision, gan gynnwys ystâd yn Jamaica o'r enw Llanrhyddni. Enwir y rym enwog "Captain Morgan" ar ei ôl e!

Yr unig Gymro sydd wedi ei gladdu yn St Paul's Cathedral ydy Sir Thomas Picton. Mae iddo'r enw o fod yn arwr rhyfel, ac mae ei gofgolofn i'w weld yng Nghaerfyrddin. Ond enillodd Picton ffortiwn yn Nhrinidad lle prynodd e ystâd yn ogystal â'r caethweision i'w gweithio. Mwy na hyn, yn ystod ei gyfnod fel Llywodraethwr Trinidad, roedd e'n ddrwg-enwog am ei ddull creulon dros ben o drin caethweision.

Rydw i'n siŵr bod pawb wedi clywed sôn am Gastell Penrhyn. Ond pwy oedd yn gwybod bod teulu Pennant wedi bod yn berchen ar ystadau siwgr yn Jamaica ers canol yr ail ganrif ar bymtheg. Hyd yn oed heddiw yn Jamaica mae pentref bach o'r enw Pennants a nifer o bobl o'r enw Pennant yn byw yno. Cafodd y cyfoeth enillodd o gaethwasiaeth ei ddefnyddio gan Richard Pennant nid yn unig i adeiladu Castell Penrhyn ond hefyd i fuddsoddi yn Chwael Penrhyn ac yn yr isadeiledd cludiant cysylltiedig. Fel canlyniad, rhodd hwb i ddiwydiant llechi yng Ngogledd Orllewin Cymru a ddaeth yn ardal llechi mwyaf pwysig y byd.

Sefydlwyd lawer o'r diwydiannau haearn a chopr yn ne Cymru ar yr elw o gaethwasiaeth. Er enghraifft, sefydlwyd gwaith haearn Cyfartha ym Merthyr yng nghanol y deunawfed ganrif gan Anthony Bacon a oedd wedi gwneud ei ffortiwn trwy ei gysylltiad â'r gaethwasiaeth (dim ond yn ddiweddarach cymerodd teulu Crawshay y gwaith drosodd).

Roedd y gaethfasnach yn farchnad bwysig ar gyfer nwyddau Cymreig hefyd; nwyddau fel copr a phres, a hyd yn oed brethyn. O'r dechrau cyntaf, roedd gweithfeydd copr a phres yng Nghymru'n rhoi sylw i anghenion y farchnad Affricanaidd - potiau, padellau, powlenni, tegellau, breichledau (a elwir "manilas"), a rhodenni copr - a gawson eu cyfnewid am gaethweision. Mae print o'r gwaith copr White Rock yn Abertawe yn dangos adeilad o'r enw "Manilla House." Ac roedd y gweithfeydd copr hefyd yn darparu nwyddau i'r ystadau yn Ynysoedd y Caribî fel llestri copr ar gyfer coethi siwgr.

Erbyn 1720, roedd Ymerodraeth Prydain yn elwa o gaethwasiaeth mewn tair ardal, a chafodd bob ardal ei hymroi i gynhyrchu un cnwd yn unig: baco yn Virginia; reis yn South Carolina; a siwgr yn ynysoedd y Caribî. Roedd yn rhaid i'r ardaloedd hyn fewnforio eu holl anghenion. Er enghraifft, roedd dinas Cork yn Iwerddon yn

cyflenwi maint mawr o gig eidion i fwydo'r caethweision. Ac roedd Cymru yn gyflenwr pwysig o frethyn i wisgo'r caethweision. "Welsh plains" neu "Welsh cotton" oedd enw'r brethyn hwn a gafodd ei ddefnyddio i wneud gwisgoedd syml y caethweision.

Cafodd y brethyn ei gynhyrchu yn ucheldiroedd Sir Drefaldwyn a Sir Feirionnydd lle'r oedd e'n ffynhonnell o incwm hanfodol ar gyfer cartrefi tlodion Cymru wledig. Ond ni ymgyfoethogodd y gweithwyr allan o'r fasnach hon. Gwerthon nhw'r brethyn i fasnachwyr o Fryste a Lerpwl, a hwythau bydd yn elwa wrth werthu'r brethyn i berchenogion y caethweision. Erbyn diwedd y 1830au, wrth i'r galw am "Welsh plains" ddiflannu, gwnaeth y cynhyrchwyr Gymreig suddo i dlodi mawr.


Wrth gwrs, mae ochr arall i'r geiniog, sef y mudiad i ddiddymu caethwasiaeth. Siaradodd nifer o Gristnogion Cymreig, gan gynnwys William Williams Pantycelyn, yn erbyn caethwasiaeth, a phregethodd John Elias o Ynys Môn yn erbyn caethwasiaeth yn Lerpwl. Gwrthwynebwr caethwasiaeth arall oedd Iolo Morgannwg a wrthododd werthu siwgr wedi'i gynhyrchu gan gaethweision yn ei siop yn Y Bont-faen (y siop fasnach deg gyntaf yng Nghymru felly!).

Er i'r gaethfasnach gael ei diddymu ym 1807, nid hyn oedd diwedd caethwasiaeth yn yr Ymerodraeth Brydeinig. Felly, yn y 1820au roedd ymgyrch i ddiddymu caethwasiaeth yn gyfan gwpl. Roedd y gefnogaeth yng Nghymru dipyn yn siomedig, ac roedd Abertawe yn un o'r ychydig lleoedd Cymreig i ymateb â brwdfrydedd. Ym mhlith yr ymgyrchwyr yn yr ardal hon oedd diwydianwyr lleol fel Joseph Tregelles Price o'r Neath Abbey Ironworks a Lewis Weston Dilwyn o'r Cambrian Pottery. Daeth hwn yn Aelod Seneddol ym 1832 ac roedd e'n gefnogwr brwd o'r Ddeddf Diddymiad Caethwasiaeth ym 1833.

Mae'n ymddangos i fi bod y cysylltiad rhwng Cymru a chaethwasiaeth wedi bod yn guddiedig tan yn ddiweddar, ac mae'n hen bryd i ni ddod â fe i mewn i olau dydd. Rydw i'n meddwl ei bod hi'n bwysig i ni sylweddoli pa mor eang oedd effaith caethwasiaeth ar gymaint o agweddau'n hanes ni. Gobeithio bod yr erthygl hon wedi taflu peth o oleuni ar sut effeithiodd y fasnach arswydus hon ar Gymru.

## Blasu

gan Manon Steffan Ros  
adolygiad gan Martin Jones



Mae Blasu - ail nofel Manon Steffan Ros ar gyfer oedolion - yn cychwyn ar ben-blwydd wyth deg Pegi pan mae ei mab yn rhoi llyfr iddi a gofyn iddi ysgrifennu hanes ei bywyd. Ond nid hanes confensiynol yw hyn sef bywyd rhywun sy'n cael ei adrodd yn y person cyntaf yw beth sy'n dilyn. Dim ond dwy bennod allan o dair ar hugain a adroddir gan Pegi - y lleill yn cael eu hadrodd gan amrywiaeth o bobl oedd yn adnabod Pegi ac sy'n adrodd digwyddiadau gwahanol yn ei bywyd. Ac mae tro annisgwyl arall sef fod bwyd yn gysylltiedig â phob digwyddiad ac mae pob pennod yn dechrau gyda rysâit wahanol.



Mae nifer o linyddau i'r nofel, a thrwy hanes Pegi. Gwelwn y newidiadau mewn cymuned wledig o'r tri degau, tra mae'r ryseitiau'n egluro'r newidiadau mewn chwaeth dros y pedwar ugain mlynedd diweddfaf - er enghraifft, y gacen sinsir o 1937 a'r coffi affogato ym 1997.

Mae cynllun y nofel yn caniatáu i ni weld Pegi fel mae pobl wahanol yn ei gweld. Hefyd yn caniatáu i ni weld y cyferbyniad rhwng ei hwyneb cyhoeddus ar y naill law a'i hamheuron cyfrinachol a'i helyntion mewnol ar y llaw arall. A gwelwn hefyd y cyferbyniad rhwng ei chariad at fwyd a'r ochr tywyll i'w harferion bwyta, fel trwy gydol ei bywyd mae hi'n ymdrechu i ddelio â chysgod gwallgofrwydd ei mam - ac â chyfrinach dywyll.

Mae'r arddull uniongyrchol a lliwgar yn creu llun fyw o amser, lle, a pherson. I fi, roedd diwedd y nofel yn enwedig o rymus wrth i Pegi ddisgrifio ei henaint ac, o'r diwedd, ddatgelu'r gyfrinach y mae hi wedi'i chadw ers cyhyd.

Galla i gymeradwyo'r llyfr hwn yn llwyr - ond os dych chi ddim yn ei fwynhau, gallwch wastad brofi un o'r ryseitiau!

## Geiriau Gwell

gan Dic Shonnelly



Mae Dic Shonnelly ar wyliau

## Gwnewch y Pethau Bychain

gan Shelagh Fishlock



Y 1af o Fawrth yw dydd Gŵyl Dewi, cyfle i'r Cymry ddatlu'u Cymreictod gan chwifio baner, gwisgo cennin neu gennin Pedr, gorymdeithio trwy'r strydoedd gyda phlant wedi'u gwisgo lan, canu ac yfed mewn tafarndai. (Wel, mewn blwyddyn normal, wrth gwrs).

Ond pwy oedd Dewi, nawddsant Cymru? Esgob o'r 6ed ganrif oedd e, mab i Santes Non, ac ŵyr Ceredig ap Cunedda, brenin Ceredigion, a sefydlodd mynachdai yn Sir Benfro, yn Lloegr ac yn Llydaw. Ysgrifennwyd hanes y sant yn "Buchedd Dewi" yn yr 11eg ganrif, ond mae'n debyg mai cymysgedd o ffeithiau a chwedlau sy'n ymddangos rhwng y cloriau.

Yn ôl y sôn, ganwyd Dewi ar ben clogwyn yn ystod storm fawr. Torrwyd cerrig gan follten mell, gan greu ffynnon yn y lle. Roedd ffynhonnau'n ei ddilyn trwy gydol ei deithiau, a gwnaeth e sawl gwyrth, fel iacháu dyn dall, a defnyddio ei ddagrau i ddod â bachgen yn fyw. Ond digwyddodd yr wyrth enwocaf yn Llanddewi Brefi. Roedd Dewi'n pregethu o flaen torf a oedd eisiau ei weld yn well, ac yn y fan honno cododd bryn newydd o dan draed y sant, er mwyn i bawb gallu gweld a chlywed ei eiriau. (Gwyrth hollol



ddiangen yn ôl yr hanesydd John Davies, gan nad oes diffyg fryniau yn yr ardal!)

Er bod powlen o gawl a gwydryn neu ddau yn y dafarn yn boblogaidd erbyn hyn, doedd Dewi ddim yn argymhell y fath ffordd o ddatlu – yfed dim ond dŵr, a bwyta dim ond llysiau wnaeth mynachod Dewi Sant.

Cyn iddo farw ar y 1af o Fawrth 589, anogodd ei ddilynwyr, “Gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac y gwelsoch gennyf i.” Ar ôl blwyddyn anodd sy wedi trawssffurfio ein bywydau i gyd, mae’r geiriau hyn yn ymddangos yn fwy perthnasol nag erioed.

Yn aml iawn mae gan bobl “bucket list” – pethau cyffrous neu antur anarferol fel teithio ar yr Orient Express, dringo Kilimanjaro, gweld y Taj Mahal. Ond ar ôl blwyddyn heb weld ffrindiau neu deulu ac yn poeni am iechyd ac iechyd meddwl, colli swydd neu golli rhywun annwyl, dyn ni’n deall pa mor pwysig yw’r “pethau bychain” yn ein bywydau ni. Dyn ni’n edrych ymlaen at gael paned yn nhŷ ffrind, at roi cwtsh i wyrion a rhieni, at bleserau syml fel mynd i’r sinema, i dŷ bwyta neu’r siop trin gwallt. A dyn ni’n sylweddoli hefyd bod gweithredoedd bach yn gallu gwella diwrnod anodd – galwad ffôn, ychydig o siopa, hyd yn oed gwenu a dweud “Bore Da” ar y stryd.

Ni fydd gorymdaith eleni, ond gall pawb dathlu gan gofio’r “pethau bychain.



**Learn Welsh quicker by using the resources available!**

**Radio Cymru**

**Dysgwch wrth Wrandu**

This article is a translation of the article on the front page. It would have been silly not to do this translation because the message is very important to improving your learning experience.

I was born in Anglesey in a happy time when our world was totally Welsh. If there was a threat to the language it was not obvious at the time. My father was a vicar in the parish of Llanallgo near Moelfre but our world was turned on its head when he was appointed as vicar of Saundersfoot in South Pembrokeshire. I remember my First day at the village primary school and the other children told me that I had a funny accent. A funny accent? Good Lord no! I had no accent at all but their’s sounded very odd indeed! My youngest brother couldn’t speak a word of English so as a family we had to change our habit and speak English so as to help him learn.

From then on there was little chance to speak Welsh apart from during occasional visits from Welsh speaking relatives. However I did go to the ‘Welsh as a Foreign Language’ class in my final year in the grammar school. That enabled me to get 5 O Levels and a job in the bank. That was the start of my varied career which took me to the English Midlands for almost 40 years.

When I was 35 I started to worry that I was in danger of losing something very precious.

[Type here]

Y Wennol

Cyfrol 1 Rhif 12

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Naturally my Welsh had not developed at all since I was 10 years old and most of that had been forgotten. I was rescued by books and Radio Cymru. I shall discuss books next month but this is how Radio Cymru brought me back into the Welsh world.

After a period working at the City Treasurers Department in Birmingham and then Austin Morris in Longbridge I found myself living in Kidderminster. The town was near enough to the border to enable me to clearly receive Radio Cymru. Welsh was available! Yes available but I wasn't able to understand much at first but there was no other way for me to hear the language.

Forgive me for saying something which you may not understand but just ask your grandparents to explain. I had a music centre so I could record programmes on a cassette tape and play it back in the car at every opportunity. I didn't expect to understand much but gradually I would come across a particular word, one I had heard several times. That night I would be looking it up in the dictionary and that was a new word I had learned. Before long I was able to understand more of what I was hearing. Had I been going to a night school at the time I would have learned much quicker, but there wasn't one available.

These days things are much better, for one thing you can hear Radio Cymru anywhere in the world. That's a big thing isn't it, you could emigrate to Australia and keep in touch with the language. Also Radio Cymru produces podcasts especially for learners, snippets from the week's broadcasts that are easier for learners to understand. You can download these to your phones or tablets and listen to them whenever you wish.

Its also worth listening to the programmes, they are nearly all a mixture of conversations and music. The Welsh music scene would be new to you as well. You may come across a voice that you

like and may want to buy the CD (if that is how you get your music in this modern world)

Radio Cymru will provide you with much pleasure but as well as that pleasure you will also be learning.

Go to:

<https://www.bbc.co.uk/podcasts/radiocymru> to see all the podcasts and to

<https://www.bbc.co.uk/programmes/p02nrvyj/episodes/downloads> in order to get the podcasts for learners .

There are so many resources to guide you through your journey. Don't waste this valuable opportunity to progress swiftly.

Best of luck!

### **Programmes Monday to Friday**

5.30 – John Hardy – *light entertainment*

7.00 – Dros Frecwast – *news*

9.00 – Aled Hughes – *light entertainment*

11.00 – Bore Cothi – *light entertainment*

12.30 – Dros Ginio – *news*

2.00 – Ifan Evans – *light entertainment*

5.00 – Post Prynawn – *news*

6.00 – 12.00 *Various*



## Geirfa

### Dysgwch wrth Wrando

Cyfnod dedwydd – happy time  
 Bygythiad – threat  
 Rheithor – rector  
 Plwyf – parish  
 Tro ar ein byd – change to our world  
 Penodi – to appoint  
 Brawd ifengaf – youngest brother  
 Heblaw am – other than  
 Perthnasau – relations  
 Gyrfa amrywiol – varied career  
 Canolbarth Lloegr – English midlands  
 Datblygu – to develop  
 Trysorlys – treasury  
 Ffin – border  
 Maddewch i mi – forgive me  
 Esboniad – explanation  
 Canolfan gerdd – music centre  
 Tâp gasét – cassette tape  
 Gair penodol – a particular word  
 Llawer cyflymach – much quicker  
 Allfudo – to emigrate  
 Cynhyrchu podlediadau – to produce podcasts  
 Cynnwys – content  
 Darllediadau'r wythnos – the week's broadcasts  
 Cymysgedd – a mixture  
 Cerddoriaeth – music  
 Cryno ddisg – CD  
 Mwynhad – enjoyment  
 Adnoddau – resources  
 Gwastraffu'r cyfle – to waste the chance  
 Gwerthfawr – worthwhile

### Cynffonnau Wŷn Bach

Cynffonnau wŷn Bach – catkins  
 Anghynnes – cold  
 Llwyni gwsberis – gooseberry bushes  
 Collen – hazel tree  
 Peillio – to pollinate  
 Dibynnu – to depend  
 Effeithiol iawn – very effective  
 Trosglwyddo – to transfer  
 Paill – pollen  
 Tu chwith allan – inside out  
 Cymhleth iawn – very complicated

Gwernen – alder  
 Bedwen arian – silver birch  
 Derwen – oak  
 Helygen wen – white willow

### Pigiad

Yn ystod – during  
 Syniad – idea  
 Taro fi – to strike me  
 Pigiad – injection  
 Gweithred sydyn – a sudden act  
 Diofal – without care  
 Gofalus – careful  
 Tyner – tender  
 Odli – to rhyme  
 Canlynol – following  
 Cadarnhau – to confirm  
 O'u blaenau – before them  
 Gwingo – to wince  
 Codi ofn – to raise fear  
 Wedi cael ei addasu – having been adapted  
 Hirsgwar – rectangular  
 Cyflwr iechyd – state of health  
 Siomi fy hun – to disgrace myself

### Caethwasiaeth a Chymru

Caethfasnach – the slave market  
 Porthladd – port  
 Cerflun – statue  
 Delwedd – image  
 Mwyaf cofiadwy – most memorable  
 Masnach – market  
 Erchyll – hideous  
 Caethlongau – slave ships  
 Caethwasiaeth – slavery  
 Yn eu plith – among them  
 Caethweision – slaves  
 Ystâd – estate  
 Claddu – to bury  
 Mae iddo'r enw – he has a reputation as  
 Arwr rhyfel – war hero  
 Cofgolofn – memorial  
 I'w gweithio – to work them  
 Llywodraethwr – governor  
 Drwg enwog – to have a bad reputation  
 Dull creulon – a cruel way  
 Yn berchen ar – to own

Cyfoeth – riches  
 Buddsoddi – to invest  
 Isadeiledd cludiant – transport infrastructure  
 Cysylltiedig – connected  
 Fel canlyniad – as a result of  
 Diwydiant llechi – the quarrying industry  
 Sefydlu – to establish  
 Diwydiant haearn – iron industry  
 Deunawfed ganrif – eighteenth century  
 Yn ddiweddarach – later  
 Nwyddau Cymreig – Welsh products  
 Copr a phres – copper and brass  
 Anghenion – needs  
 Padell – dish  
 Powlen – bowl  
 Cyfnewid – to Exchange  
 Coethi siwgr – to refine sugar  
 Ymerodraeth – empire  
 Ymroi – to devote to  
 Cnwd – crop  
 Mewnforio – to import  
 Cig eidion – beef  
 Cyflenwr – supplier  
 Brethyn – cloth  
 Hanfodol – essential  
 Cymru wledig – rural Wales  
 Ymgyfoethogi – to get rich  
 Mudiad – a movement  
 Diddymu – to abolish  
 Pregethu – to preach  
 Gwrthwynebwr – opponent  
 Masnach deg – fair trade  
 Brwdfrydedd – enthusiasm  
 Ym mhlith – among  
 Diwydiannwr – industrialist  
 Yn guddiedig – hidden  
 Pa mor eang – how wide (was)

## Blasu

Blasu – to taste  
 Adrodd – to tell (a story)  
 Yn y person cyntaf – in the first person  
 Tro annisgwyl – unexpected turn  
 Cysylltiedig â – connected to  
 Rysâit – recipe  
 Llinynnau – threads  
 Cymuned wledig – rural community

Egluro to explain  
 Chwaeth – taste  
 Cacen sinsir – ginger cake  
 Caniatáu – to allow  
 Cyferbyniad – contrast  
 Wyneb cyhoeddus – public image  
 Ar y naill law – on the one hand  
 Amheuan cyfrinachol – secret doubts  
 Helyntion mewnol – inner troubles  
 Ar y llaw arall – on the other hand  
 Ymdrechu - to endeavour  
 Cysgod – shadow  
 Gwallgofrwydd – madness  
 Cyfrinach tywyll – dark secret  
 Arddull uniongyrchol – direct style  
 Grymus – strong  
 Ers cyhyd – for so long  
 Cymeradwyo – to recommend  
 Yn llwyr – totally

## Y Pethau Bychain

Chwifio baner – to wave a flag  
 Gorymdeithio – to process (to march)  
 Nawddsant – patron saint  
 Esgob – Bishop  
 Sefydlu – to establish  
 Mynachdy – monastery  
 Llydaw – Brittany  
 Buchedd Dewi – the life of Dewi  
 Rhwng y cloriau – between the covers  
 Clogwyn – cliff  
 Bollten mellt – bolt of lightning  
 Ffynnon – a well  
 Trwy gydol – throughout  
 Gwyrth – miracle  
 Iachau dyn dall – to cure a blind man  
 Dagrau – tears  
 Enwocaf – the most famous  
 Diangen – unnecessary  
 Hanesydd – historian  
 Diffyg bryniau – shortage of hills  
 Argymell – to urge  
 Dilynwyr – followers  
 Trawsffurfio – to transform  
 Perthnasol – relevant  
 Gweithred – act, deed